# Cynllun beicio i'r gwaith
*13/07/2012*

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 26 Mehefin. Byddaf ymateb i bob rhan o'ch cais yn ei thro.

1. ***A ydych yn cymryd rhan yng nghynllun beicio i'r gwaith Llywodraeth y DU ar hyn o bryd?***

Mae'r Cynulliad wedi cynnig cynllun beicio i'r gwaith ar gyfer staff, Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ers mis Mawrth 2009.

2. ***Os felly, sawl unigolyn sydd wedi elwa ar y cynllun hyd yma?***

Hyd yma, mae cyfanswm o 31 o unigolion wedi elwa ar y cyfle i gael beic drwy'r cynllun hwn.

3. ***Pa weithdrefnau sydd gennych ar waith ar hyn o bryd i fonitro'r nifer sy'n cymryd rhan yn y cynllun a'r broses o'i weithredu?***

Gweithredir a rheolir y cynllun yn fewnol yn unol â'r canllawiau a bennwyd gan Adran Drafnidiaeth y DU a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (gweler y linc isod). Caiff pob cais ei brosesu drwy 'On your bike', gweinyddwr swyddogol ar gyfer y cynllun beicio i'r gwaith, sy'n cymryd y camau sydd eu hangen o ran cysylltu â chyflenwyr a phrosesu ceisiadau yn unol â'r canllawiau swyddogol. Caiff unrhyw newidadau i'r cynllun eu hystyried a'u gweithredu yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff pob cais cofrestredig ei logio a chynhelir y gwaith o fonitro ceisiadau presennol a newydd yn unol ag amserlenni ad-dalu.

http://www.dft.gov.uk/publications/cycle-to-work-scheme-guidance/

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Cyhoeddir y wybodaeth hon ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission.htm

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn.  Os ydych yn teimlo fod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad ydym wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydym wedi cadw at y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn swyddogol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir manylion ynghylch egwyddorion cwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymddygiad ar Gwyno sydd ar gael ar y fewnrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm Rhowch wybod os ydych am gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol am benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**